Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Cybi

**Ffordd Garreglwyd**
**Caergybi**
**Ynys Môn**
**LL65 1NS**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2024**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**ac**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

# Cylch Meithrin Cybi

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Cybi |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n gymwys) | Lynne Roberts, Janet Ellis |
| Person â chyfrifoldeb | Janet Ellis, Alison Jones |
| Nifer y lleoedd | 50 |
| Ystod oedran y plant | 2 – 4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 oed | 32 |
| Nifer y plant sy'n cael cyllid ar gyfer addysg gynnar | 14 |
| Diwrnodau / amseroedd gweithredu | Dydd Llun i ddydd Gwener 9.00 – 15.00 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Ydy |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r lleoliad hwn yn darparu'r Cynnig Gofal Plant? | Ydy |
| Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg | Ydy |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 13 Ionawr 2020 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Hwn oedd yr arolygiad cyntaf |
| Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn | 26/03/2024 |
| Mae bron pob plentyn yn dod o gartrefi lle mai Saesneg yw'r brif iaith a gaiff ei siarad. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Llesiant** | **Rhagorol** |
| **Dysgu**<br>**(dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol)** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Achosion o ddiffyg cydymffurfio

Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Datblygu defnydd ymarferwyr o gwestiynau penagored er mwyn meithrin sgiliau meddwl y plant ymhellach

A2 Gwella cyfleoedd i feithrin sgiliau rhifedd y plant

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y mae'n bwriadu ymdrin â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Llesiant: Rhagorol**

Mae’r plant yn hapus iawn, yn frwdfrydig ac yn hyderus wrth gyrraedd y lleoliad. Mae bron pob un o'r plant yn mynegi eu teimladau'n glir gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu llafar a dieiriau y maent yn gyfarwydd iawn â nhw. Er enghraifft, mae'r plant yn mynegi eu teimladau gan ddefnyddio'r drychau a'r lluniau ar y wal deimladau. Mae'r plant yn gwneud penderfyniadau'n gyson, gan ddewis ble i chwarae a dysgu. Maent yn symud yn hyderus o un gweithgaredd i'r gweithgaredd nesaf a rhwng yr ardal dan do a'r ardal awyr agored. Gwrandewir ar ddiddordebau a barn y plant a chânt eu cynnwys yn y gweithgareddau a gynllunnir. Er enghraifft, mae'r plant yn rhannu eu hoff degan yn ystod amser cylch ac yn esbonio pam ei fod yn bwysig iddynt.

Mae bron pob un o'r plant yn ymdopi'n dda wrth gael eu gwahanu oddi wrth eu rhieni a'u gofalwyr. Maent yn ffynnu o fanteisio ar y cyfleoedd a ddarperir iddynt ac yn datblygu ymdeimlad cryf o berthyn. Er enghraifft, mae'r plant yn awyddus i edrych ar luniau o'u teulu ar yr arddangosfa coeden deulu ac maent yn mwynhau rhannu eu newyddion yn ystod sesiwn grŵp. Mae'r plant yn gwybod y cânt eu gwerthfawrogi gan eu bod nhw, a'r ymarferwyr, yn cydnabod nodweddion da ei gilydd. Er enghraifft, pan fydd y plant yn ymddwyn mewn ffordd garedig, caiff hyn ei ddathlu drwy eu penodi'n helpwr y dydd. Mae'r plant yn ymfalchïo wrth weld eu gwaith celf unigol ac unigryw yn cael ei arddangos.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n rhagorol â'r ymarferwyr ac maent yn hyderus wrth siarad ag ymwelwyr. Maent yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol iawn â'u gweithwyr allweddol, sy'n cael effaith gadarnhaol iawn ar eu llesiant a'u cymhelliant. Mae bron pob un o'r plant yn meithrin sgiliau cymdeithasol da. Yn y bore, maent yn croesawu eu ffrindiau yn frwdfrydig, yn cyfarch ei gilydd ac yn mynd i chwarae gyda'i gilydd yn hapus ar unwaith. Mae'r plant yn gwrtais ac yn ymddwyn yn dda ac maent yn dangos parch tuag at yr ymarferwyr a'u cyfoedion. Er enghraifft, mae'r plant yn aros eu tro wrth y bwrdd yn ystod amseroedd bwyd, gan sgwrsio'n fodlon â'i gilydd.

Mae'r plant yn mwynhau'r cyfleoedd helaeth a gânt i chwarae a dysgu yn fawr ac maent yn cymell eu hunain wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau o'u dewis. Cânt lawer o hwyl wrth ddefnyddio *walkie-talkies*, gan siarad, chwerthin a gwenu wrth iddynt guddio rownd y gornel o'u ffrindiau. Maent yn siarad ac yn sgwrsio'n naturiol wrth gymryd rhan yn eu gweithgareddau chwarae rôl gan esgus pobi cacen. Maent yn cydweithio'n frwdfrydig i adeiladu tŵr gan ddefnyddio blociau mawr ac yn cael llawer o hwyl yn ei wylio'n disgyn i'r llawr.

Mae bron pob un o'r plant yn meithrin sgiliau annibynol effeithiol iawn. Er enghraifft, maent yn defnyddio'r toiled ac yn golchi eu dwylo'n annibynnol drwy gydol y dydd, ac yn cymryd cyfrifoldeb am eu hylendid personol eu hunain. Maent yn rheoli eu risgiau eu hunain ac yn ymwybodol o'u cyfyngiadau. Er enghraifft, mae'r plant yn dewis y beic mwyaf addas o'r amrywiaeth sydd ar gael. Maent yn naturiol yn ceisio gwneud pethau'n annibynnol cyn i'r ymarferwyr ymyrryd, megis cau sipiau eu cotiau eu hunain a chasglu eu heiddo.

**Dysgu (dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol): Da**

Mae bron pob un o'r plant yn chwarae gyda'i gilydd yn bwrpasol, ac mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd da o leiaf yn eu dysgu o'u mannau cychwyn. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn meithrin eu sgiliau llythrennedd, eu sgiliau creadigol a'u sgiliau datblygiad corfforol yn dda.

Mae bron pob un o'r plant yn llwyddo i sicrhau bod modd eu deall ac yn meithrin eu sgiliau siarad a gwrando yn llwyddiannus. Maent yn rhannu syniadau, yn cydweithio, ac yn cyfathrebu'n dda â'i gilydd, gyda chyfarwyddiadau priodol ac anogaeth gan yr ymarferwyr. Maent yn dilyn arferion y lleoliad yn dda. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn adnabod eu henwau eu hunain, ac mae'r mwyafrif yn dangos diddordeb mewn llyfrau ac yn dechrau ymdrin â nhw fel darllenydd, er enghraifft, wrth ddarllen cardiau rysáit yn y gornel gartref. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn arbrofi â phrofiadau ysgrifennu cynnar ac yn eu mwynhau. Maent yn gwneud penderfyniadau o ran y deunyddiau a'r adnoddau y maent am eu defnyddio, ac mae marciau rhai o'r plant yn dechrau dod yn fwy ystyrlon. Er enghraifft, mae'r plant yn ysgrifennu rhestrau siopa ac yn cymryd archebion bwyd yn ystod gweithgaredd chwarae rôl cartref.

Mae bron pob un o'r plant yn mwynhau canu ac yn ymuno i ganu caneuon a rhigymau Cymraeg ac mae'r rhan fwyaf yn dechrau curo dwylo a thapio'n unol â rhythmau'r gerddoriaeth. Mae'r rhan fwyaf yn dechrau adnabod lliwiau, y tywydd a dyddiau'r wythnos yn Gymraeg. Maent yn deall iaith syml, fel cyfarwyddiadau a

chyfarchion pan fyddant yn cyrraedd y lleoliad, ac yn ymateb yn briodol. Mae bron pob un o'r plant yn mwynhau mynegi eu hunain yn greadigol drwy waith celf ym mhob rhan o'r ddarpariaeth. Er enghraifft, mae'r plant yn mwynhau gwisgo i fyny mewn amrywiaeth o ddillad a gwisgoedd, gan ddynwared cymeriadau wrth chwarae rôl ac arbrofi gyda thoes gan ei dynnu, ei droelli a'i siapio i ffurfiau gwahanol.

Mae rhai o'r plant yn cyfrif i 10 ac yn defnyddio geirfa fathemategol syml wrth chwarae. Maent yn dechrau defnyddio iaith fathemategol gymharol i ddisgrifio maint tyredau'r cestyll y maent wedi'u hadeiladu gan ddefnyddio blociau, ac wrth gyfrif bwydydd gwahanol ac maent yn dangos dyfalbarhad a mwynhad wrth gwblhau tasgau yn llwyddiannus. Mae bron pob plentyn yn ymuno wrth ganu caneuon a rhigymau am rifau ac yn eu mwynhau. Mae oddeutu hanner y plant yn dechrau adnabod rhai siapiau dau ddimensiwn syml. Mae rhai o'r plant yn dechrau adnabod rhifau, er enghraifft, wrth ddefnyddio'r llinell rif i gyfrif neu wrth enwi'r rhifau wrth iddynt gwblhau'r jig-so rhifau.

Mae sgiliau corfforol y rhan fwyaf o'r plant yn datblygu'n dda. Maent yn cynnal eu cydbwysedd wrth gerdded ar drawstiau, croesi rhwystrau a reidio beiciau. Maent yn neidio, yn hercian ac yn sgipio'n llawn brwdfrydedd ac yn mwynhau taflu a bownsio peli. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn meithrin eu sgiliau datrys problemau yn dda drwy amrywiaeth o weithgareddau diddorol dan do ac yn yr awyr agored, fel datrys sut i adeiladu tyrau, neu ddefnyddio melin wynt bapur i ddod o hyd i'r ardal fwyaf gwyntog ar yr iard.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae'r ymarferwyr yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau gan gadw at arferion dyddiol trylwyr y lleoliad. Maent yn ymdrechu i sicrhau y dilynir gweithdrefnau hylendid da. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn golchi eu dwylo'n rheolaidd ac yn glanhau'r byrddau cyn i'r plant fwyta. Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo arferion da o ran sicrhau bod y plant yn aros yn iach drwy gynnig byrbryd iach a hyrwyddo arferion bwyta'n iach. Maent yn hyderus o ran beth i'w wneud pe byddai ganddynt unrhyw bryderon am ddiogelwch plentyn ac yn ymwybodol o'u dyletswyddau unigol i ddiogelu plant. Mae'r ymarferwyr yn cadw cofnodion damweiniau a digwyddiadau manwl a gaiff eu llofnodi gan y rhieni er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei rhannu. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod adnoddau cymorth cyntaf ar gael yn y lleoliad ac ar gyfer ymweliadau. Mae nifer digonol o ymarferwyr yn y lleoliad sy'n meddu ar dystysgrif cymorth cyntaf briodol, ac mae hyn yn eu galluogi i ddelio â damweiniau a mân anafiadau mewn ffordd gymwys.

Mae'r ymarferwyr yn meithrin cydberthynas gynnes â'r plant, ac yn eu trin â gofal a pharch. Mae pob ymarferydd yn defnyddio iaith gadarnhaol â'r plant sy'n hyrwyddo ymddygiad da ac yn cefnogi'r plant yn effeithiol. Maent yn hwyluso datblygiad cymdeithasol y plant ochr yn ochr â'u sgiliau personol. Er enghraifft, yn ystod amser byrbryd, caiff y plant gyfle i roi menyn ar eu cacen gri ac maent yn helpu i glirio'r bwrdd. Mae'r ymarferwyr yn modelu hyn yn effeithiol, gan annog y plant i ddysgu drwy arsylwi ar sgiliau ei gilydd. Maent yn eu cefnogi drwy gynnig canmoliaeth wrth i'r

plant gyflawni tasgau'n llwyddiannus. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad y plant o ran eu hunanhyder a'u dealltwriaeth o bwysigrwydd parchu ei gilydd.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn eithriadol o dda ac yn gwerthfawrogi eu cyfraniadau a'u dewisiadau unigol. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn ymateb i geisiadau'r plant am wahanol baent yn ystod gweithgaredd crefft. Mae llawer o'r ymarferwyr yn siarad Cymraeg yn rheolaidd er mwyn ymdrochi'r plant yn yr iaith ac atgyfnerthu eu patrymau ieithyddol a chyflwyno geirfa newydd iddynt yn llwyddiannus. Mae'r ymarferwyr yn annog y plant i ddeall pwysigrwydd trin pobl o bob cefndir â pharch a goddefgarwch. Maent yn sensitif tuag at y plant sy'n dewis peidio ag ymgymryd â thasgau penodol drwy adael iddynt ddewis eu llwybrau eu hunain. Mae'r ymarferwyr yn cefnogi'r plant ag anghenion ychwanegol yn dda, ac maent yn gweithio gydag asiantaethau allanol er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i'r plant.

**Addysgu ac asesu (dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol): Da**

Mae'r ymarferwyr yn darparu amrywiaeth effeithiol o brofiadau dysgu sy'n llwyddo i ennyn diddordeb bron pob plentyn. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o ddatblygiad plant, maent yn adnabod y plant yn dda ac yn dechrau ymateb yn gadarnhaol i'w diddordebau personol. Mae'r ymarferwyr yn dechrau edrych ar ofynion y Cwricwlwm i Gymru ac yn gwneud newidiadau priodol. Maent yn modelu gweithgareddau yn effeithiol ac yn cefnogi dewis y plant i chwarae'n rhydd ac i arbrofi mewn ffordd ddeallus, gan benderfynu pryd a sut y dylid ymyrryd er mwyn cyfoethogi'r dysgu. Er enghraifft, wrth herio'r plant i greu cennin pedr gan ddefnyddio toes, mae'r ymarferwyr yn galluogi'r plant i fod yn greadigol ac yn newid y gweithgaredd er mwyn iddynt wneud hufen ia. Yn ystod y gweithgaredd, maent yn arsylwi arnynt yn dewis yr adnoddau priodol i dorri, siapio a thrin y toes.

Mae'r ddarpariaeth i feithrin sgiliau llythrennedd y plant yn effeithiol. Maent yn canolbwyntio'n dda ar wella sgiliau Cymraeg y plant drwy ganu caneuon a defnyddio geiriau ac ymadroddion syml drwy gydol y sesiwn a thrwy annog y plant i ymateb. Maent yn modelu geirfa briodol ac yn gofyn cwestiynau addas i'r plant er mwyn ehangu eu dealltwriaeth. Fodd bynnag, maent yn tueddu i ofyn cwestiynau caeedig sy'n cyfyngu ar alluoedd y plant i feddwl yn ehangach. Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd dychmygol i'r plant gymryd rhan mewn gweithgareddau creu marciau. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd i'r plant greu patrymau ar bapur ac arbrofi wrth ysgrifennu mewn tywod ac yn y toes gan ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau. Mae'r gornel lyfrau yn groesawgar ac yn cynnwys adnoddau addas sy'n annog y plant i ymddiddori mewn straeon sy'n ymwneud â'u diwylliant eu hunain a diwylliannau eraill. O ganlyniad, mae'r mwyafrif o'r plant yn dangos diddordeb mewn llyfrau a straeon.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd priodol i feithrin sgiliau rhifedd y plant drwy gyfrif, paru a threfnu gwrthrychau yn ôl eu maint. Maent yn meithrin sgiliau datrys problemau'r plant yn llwyddiannus drwy gynnal gweithgareddau ysgogol wedi'u cynllunio. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn darparu amrywiaeth o gynhwysion ac offer coginio gan herio'r plant i goginio cawl. Fodd bynnag, maent yn methu

cyfleoedd i atgyfnerthu a meithrin sgiliau rhifedd y plant ymhellach drwy'r gweithgareddau hyn. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio amrywiaeth o brofiadau chwarae rôl sy'n annog y plant i ddefnyddio eu dychymyg ac sy'n eu galluogi i ymgymryd â rolau gwahanol wrth chwarae, er enghraifft wrth chwarae yn y gornel gartref.

Mae'r ymarferwyr yn darparu amrywiaeth o brofiadau dysgu sy'n hybu datblygiad moesol, ysbrydol a diwylliannol y plant yn dda. Maent yn meithrin eu hymdeimlad o syfrdandod a rhyfeddod yn llwyddiannus ac yn darparu amrywiaeth eang o gyfleoedd effeithiol iddynt ddysgu am bethau byw a gofalu amdanynt. Er enghraifft, mewn ymateb i ymweliad â fferm pwmpenni gyda'r plant, gwnaeth yr ymarferwyr greu ardal llysiau eu hunain ac maent bellach yn helpu'r plant i dyfu llysiau amrywiol ac i ofalu amdanynt tan y byddant yn barod i'w codi yn y gwanwyn.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio asesiadau ac arsylwadau yn rheolaidd i nodi'r hyn y mae'r plant wedi'i ddysgu, i osod targedau ac i ddangos cynnydd y plant dros amser yn llwyddiannus. Maent yn hysbysu'r rhieni am gynnydd a datblygiad eu plentyn drwy roi diweddariadau rheolaidd iddynt.

**Yr Amgylchedd:  Da**

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn lân ac, o ganlyniad, maent yn hybu diogelwch a llesiant y plant. Mae ganddynt drefniadau ar waith i groesawu ymwelwyr ac maent yn dilyn gweithdrefnau diogel ac effeithiol pan fydd y plant yn cyrraedd ac yn gadael y safle. Mae asesiadau risg manwl ar waith ar gyfer yr adeilad ac ar gyfer gweithgareddau penodol. Mae'r rhain yn llywio'r rhestr wirio ddyddiol y mae'r ymarferwyr yn ei rhoi ar waith i leihau risgiau i'r plant. Mae'r arweinwyr yn trefnu ymarferion tân ac yn eu cynnal yn rheolaidd ar y cyd â'r ysgol a chaiff yr ymarferion hyn eu cofnodi a'u gwerthuso. Mae'r ymarferwyr yn ymgymryd ag ymarferion tân ychwanegol sy'n benodol ar gyfer y lleoliad. O ganlyniad, maent yn rhoi cyfle i bron pob un o'r plant ymgyfarwyddo â'r trefniadau i'w dilyn mewn argyfwng. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y tystysgrifau yswiriant yn ddilys. Yn ystod yr arolygiad, cafodd yr Unigolyn Cyfrifol afael ar ddogfennau eraill a oedd yn ymwneud â gwiriadau diogelwch yr adeilad, fel gwiriadau tân a thrydan, ac aeth ati i adolygu'r dogfennau hynny.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn cael gofal ac addysg mewn amgylchedd a gaiff ei gynllunio er mwyn hyrwyddo eu hannibyniaeth a'u hannog i ddysgu, ac sy'n anelu at wneud hynny. Mae'r dodrefn, y cyfarpar, y teganau a'r adnoddau yn briodol, o safon uchel ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Mae'r ardaloedd chwarae yn tanio dychymyg y plant ac yn eu galluogi i gymryd risgiau, fel adeiladu yn yr ardal adeiladu a symud y teiars. Mae'r ardaloedd hyn yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i'r plant feithrin eu sgiliau yn llwyddiannus. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod cyfleusterau da ar gael er mwyn i'r plant ddefnyddio'r toiled a'r basnau golchi dwylo yn annibynnol, ac mae'r rhain yn sicrhau parch a phreifatrwydd. Maent yn trefnu'r ardaloedd dan do a'r ardaloedd awyr agored yn briodol er mwyn darparu amrywiaeth eang o brofiadau ysgogol sy'n annog y plant i symud o un gweithgaredd i'r llall yn effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn groesawgar, ac mae'r arddangosfeydd deniadol yn creu ymdeimlad cryf o berthyn. Er enghraifft, caiff dyddiadau pen-blwydd

y plant eu harddangos er mwyn dathlu dyddiadau pwysig ym mywydau'r plant a chaiff lluniau o ymweliadau cartref tedi bêr y dosbarth eu harddangos.

Mae'r ymarferwyr yn storio'r adnoddau ar lefel isel er mwyn i'r plant allu eu dewis yn annibynnol a dilyn eu diddordebau unigol. Er enghraifft, mae'r plant yn mynd i nôl yr anifeiliaid fferm ac yn eu cario draw at yr ardal adeiladu er mwyn creu fferm. O ganlyniad, mae'r plant yn gyfarwydd iawn â chasglu a dychwelyd cyfarpar ac adnoddau i'w helpu i ddilyn eu diddordebau eu hunain. Mae'r ymarferwyr yn darparu adnoddau ysgogol i bob oedran a cham datblygu. Mae hyn yn hyrwyddo sgiliau'r plant drwy chwarae synhwyraidd, dychmygol a chreadigol, a chwarae corfforol. Er enghraifft, mae'r plant yn cymryd risgiau ac yn meithrin eu sgiliau yn ystod gweithgaredd chwarae rôl yn y gornel gartref gan ddefnyddio 'eitemau go iawn' megis cwpanau a soseri. Mae'r ymarferwyr yn annog datblygiad personol a chymdeithasol y plant drwy sicrhau bod teganau a llyfrau amlddiwylliannol ar gael iddynt.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan yr arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad yn seiliedig ar ddatblygu ymdeimlad cryf o lesiant ar gyfer pob plentyn ac, o ganlyniad, mae'r plant yn cael cynnig amgylchedd cynnes, gofalgar a diddorol. Mae ymrwymiad cadarn i waith tîm ac mae pob un o'r ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn eu rolau.

Mae datganiad o ddiben y lleoliad yn briodol, ac mae'r arweinwyr yn sicrhau bod amrywiaeth addas o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith. Mae'r arweinwyr yn ystyried y rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol wrth adolygu polisïau a gweithdrefnau.

Mae'r arweinwyr yn defnyddio cyngor gan bartneriaid cymorth fel athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol mewn ffordd bwrpasol i nodi cryfderau'r lleoliad a'r meysydd i'w datblygu yn gywir. Mae'r cynlluniau gwella yn effeithiol ac maent yn cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd ac arferion y lleoliad. Er enghraifft, mae'r arweinwyr wedi nodi pwysigrwydd cynnig mwy o gyfleoedd ar gyfer profiadau yn yr awyr agored a datblygu defnydd y plant o'r Gymraeg. Mae'r prosesau adolygu ansawdd yn ystyried barn yr ymarferwyr ac mae hynny'n cael effaith gadarnhaol.

Mae'r arweinwyr yn dilyn gweithdrefnau recriwtio cadarn ac amserol ac yn sicrhau bod rolau pob un o'r ymarferwyr wedi'u diffinio'n glir. Maent yn rhoi prosesau priodol ar waith ar gyfer goruchwylio gwaith yr ymarferwyr ac maent wedi cydnabod yr angen i fonitro ymarferwyr yn amlach er mwyn gallu eu cefnogi'n llawn i gyflawni eu rolau.

Mae'r arweinwyr yn blaenoriaethu gwariant cyllidebol a grantiau yn erbyn targedau ac yn dyrannu adnoddau mewn ffordd bwrpasol. Mae hyn yn sicrhau bod pob ymarferydd yn gymwys ac yn cael cynnig hyfforddiant, fel hyfforddiant lleferydd ac iaith, er mwyn diwallu anghenion y plant.

Mae'r arweinwyr wedi datblygu amrywiaeth o bartneriaethau effeithiol sy'n gwella ansawdd y ddarpariaeth a chanlyniadau'r plant yn llwyddiannus. Mae'r lleoliad yn defnyddio ei gysylltiadau â'r gymuned ac asiantaethau allanol mewn modd buddiol. Er enghraifft, trefnodd yr arweinwyr ymweliad â'r senotaff lleol yn ddiweddar, gan

wella ymwybyddiaeth y plant o Ddydd Sul y Cofio a chryfhau eu hymdeimlad o berthyn yn y gymuned.

Mae cydberthnasau agos rhwng y lleoliad a'r rhieni a'r gofalwyr. Mae'r ymarferwyr yn cyfathrebu'n rheolaidd â nhw drwy sgyrsiau ar garreg y drws a thrwy ap caeedig lle caiff ffotograffau eu lanlwytho o'r gweithgareddau y mae'r plant yn cymryd rhan ynddynt. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y cydberthnasau gan ei fod yn helpu'r rhieni i ddechrau trafodaethau â'u plant am eu hamser yn y lleoliad. Mae'r lleoliad wedi meithrin partneriaethau cryf â'r ysgolion cynradd lleol ac mae hyn yn sicrhau bod trefniadau pontio llwyddiannus ar waith.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y lleoliad ac ar wefannau AGC ac Estyn (http://arolygiaethgofal.cymru) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa pedwar pwynt:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac ymarfer parhaus cryf iawn |
| **Da** | Llawer o gryfderau, heb unrhyw feysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae'r cryfderau yn gwrthbwyso'r gwendidau ond mae angen gwneud gwelliannau |
| **Gwael** | Mae gwendidau pwysig yn gwrthbwyso'r cryfderau ac mae angen gwneud gwelliannau sylweddol |

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, ar yr amod y gwneir hynny'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a nodi teitl yr adroddiad.

Dyddiad cyhoeddi: 02/05/2024

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella / Meysydd I’w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 02 Mai 2024